# MYSTERIOUS AFAN CUDD

# Y FARI LWYD

gan Tim Rees

Dros y canrifoedd diwethaf mae traddodiad Cymreig y Fari Lwyd wedi bod yn ganolbwynt canu a chael hwyl yn ystod cyfnod y Nadolig, yn enwedig wrth ddathlu'r Flwyddyn Newydd.

Mae'r Fari, sy'n cynnwys penglog addurnedig ceffyl ar ben polyn hir, yn cael ei chario o gwmpas y gymuned gan grŵp o bobl, ac y galw mewn tai a thafarnau i ganu i'r preswylwyr. Mae'r canu yn fath o ganu ar odl arbennig a elwir 'pwnco', ac mae'r cantorion yn gwahodd y preswylwyr i'w hateb gyda phennill o'r un math. Yn ei ffurf buraf, bydd y grŵp sy'n cario'r Fari Lwyd yn cynnal cystadleuaeth ffraeth rhynddynt â thrigolion y tŷ/ y dafarn, a bydd hyn, fel arfer, yn arwain at grŵp y Fari'n ennill yr orchest; yna bydd ganddynt yr hawl i gael mynediad i'r adeilad, a derbyn bwyd a diod.



Y Fari Lwyd Caer Gwent
https://chepstowwassailmari.co.uk/about/

Mae gwir darddiad yr arwyddocad defodol sy'n gysylltiedig â thraddodiad y Fari Lwyd ar goll yn hen, hen hanes; mae rhai arbenigwyr o'r farn ei bod yn seremoni ceffyl gwyn Celtaidd Cyn-Cristnogol anghofiedig yn ymwneud â'r dduwies Epona neu, o bosib, yn gysylltiedig â cheffyl Rhiannon o'r Mabinogion.

Mewn rhai ardaloedd cyfunwyd llawer o arferion paganaidd gyda'r dathliadau Cristnogol a Dydd Calan mwy diweddar; mae'r hen air Cymraeg 'Llwyd' yn golygu 'Sanctaidd', felly ystyr Mari Lwyd yw Mari Sanctaidd.

Ond, oherwydd edrychiad brawychus, cyfriniol y Fari Lwyd mae rhai, serch hynny, o'r farn taw hunllef yw'r ystyr, a bod yr enw'n deillio o gyfuniad o'r gair 'Llwyd', ynghyd â Mari, gair Saesneg am gaseg o'r canol oesoedd cynnar.

Mae'r disgrifiad cyntaf yn ymddangos yn fwy credadwy, o ystyried adeg y flwyddyn y bydd yr arfer yn ymddangos, gyda'r wisg wen addurniedig ynghlwm wrth benglog y ceffyl.

Mae'n ymddangos bod traddodiad y Fari Lwyd yn arbennig o gysylltiedig â chymunedau gwledig Sir Forgannwg, Sir Fynwy a Sir Gaerfyrddin, a bod traddodiad sydd bron yn ddi-dor yn gysylltiedig â phentref Llangynwyd, ger Maesteg.



Mari Llwyd yn Llangynwyd ym Morgannwg, yn cael ei harwain gan Sianco'r Castell.
Tynnwyd y llun gan Frederic Evans rhwng 1904 a 1910.
Cyhoeddwyd yn E. C. Cawte's *Ritual Animal Disguise: A Historical and Geographical Study of Animal Disguise in the British Isles* (1978), p. 97.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

# MARI LWYD CWMAFAN



Cwmafan Mari Lwyd yn nigwyddiad Gower Wassail 2018

Ail-sefydlwyd Mari Lwyd Cwmafan yn y 1990au cynnar gan griw o chwaraerwyr o Glwb Rygbi Cwmafan a rhai o'u ffrindiau.

Yn unol â'r traddodiad ehangach mae'n deg dweud bod fformat Mari Cwmafan wedi esblygu dros y blynyddoedd, gan ddefnyddio rhai o'r penillion Pwnco mwy adnabyddus a ddefnyddir fel arfer, ynghyd â rhai o'u penillion Pwnco eu hunain a Thribannau lleol. Yn aml bydd rhai o'r rhain yn cael eu creu ar y noson, i gyd-fynd â'r ffordd y byddai'r traddodiad wedi cael ei gyfleu yn amrywiol gymunedau Morgannwg a Gwent flynyddoedd yn ôl.



Mari Lwyd Cwmafan yn ymweld â thŷ ym Mrynbryddan, Cwmafan

Os oes gennych ddiddordeb mewn atgyfodi'r hen draddodiad Cymreig hwn, a ddim am drafod penglog ceffyl go-iawn, gallwch brynu fersiwn cardfwrdd pecyn-fflat o benglog y ceffyl oddiwrth, David Pitt, yr artist o Abertawe:

https://www.facebook.com/thecrowman.net/photos/a.320596968015262/320596971348595/?type=3